# Asesiad Effaith Integredig

## Cod Gwisg Llais (yn disodli Cod Gwisg GIG Cymru Gyfan HR079)

Cwblhewch y tabl a nodwch a fydd y grwpiau canlynol yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol gan y cynnig neu na fydd ganddo unrhyw effaith o gwbl.

| Nodweddion Gwarchodedig | Dim | Cadarnhaol | Negyddol | Asesiad: |
|---|---|---|---|---|
| Oed | | X | | Yn gyffredinol, mae ymchwil gyfyngedig ynghylch a yw codau gwisg yn y gweithle yn rhwystr i gynhyrchiant neu a ydynt yn meithrin ymdeimlad o berthyn.<br><br>Rydym wedi cael adborth yn ddiweddar gan bobl hŷn yn ein sefydliad y byddent yn well ganddynt grysau chwys gwddf criw yn hytrach na rhai â chwfl. Rydym yn gweithio ar gaffael yr arddull hon er mwyn i ni allu cynyddu cysur ein pobl.<br><br>Mae rhywfaint o ymchwil yn dangos, i Genhedlaeth Z (y rhai a anwyd rhwng 1997 a 2012), bod dewis beth i'w wisgo i'r gwaith bob dydd yn achosi straen, wedi'i waethygu gan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | faterion fel cyllideb (Gweler *Cymdeithasol-Economaidd* ) a barn gan gyflogwyr. |
| Anabledd | | X | | Mae gan y polisi cyfredol (HR079) ganllawiau llym ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol yn y gweithle.<br><br>Er y gallai hyn fod yn briodol mewn ysbyty, nid oes gofyn i Llais lynu wrth y codau ymarfer hynny y tu allan i ymweliadau safle.<br><br>Mae'r polisi arfaethedig yn dileu'r cyfyngiadau hyn ac yn grymuso ein pobl i ddewis beth maen nhw'n ei wisgo yn y gweithle. Dylai hyn ganiatáu mwy o hyblygrwydd i'r rhai a allai fod angen dillad neu arddulliau dillad penodol sy'n addas i'w cyflyrau iechyd.<br><br>Rydym yn cydnabod bod angen i bobl wisgo dillad ymarferol a chyfforddus i weddu i'w hanghenion unigol, boed oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu am resymau synhwyraidd, a byddem yn darparu addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw wisg brand Llais y gallai ein pobl ddewis ei gwisgo fel rhan o'n gweithgareddau gweithle. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae cais i bobl beidio â defnyddio symiau gormodol o bersawr nac ôl-eillio pan fyddant yn y gweithle. Mae hyn yn ystyried anghenion gwahanol unigolion a phroblemau synhwyraidd posibl e.e. hypersomia, cyfraniad at orlethu ac ati.<br><br>Mae'r polisi arfaethedig hefyd yn sicrhau bod ein pobl yn gwybod na fyddwn yn goddef gwahaniaethu na diffyg parch tuag at unrhyw un o fewn y nodwedd hon sy'n defnyddio'r polisi hwn i deimlo'n fwy cyfforddus yn y gwaith. |
| Ailbennu rhywedd | | X | | Fel rhan o'r asesiad hwn, o dan y nodwedd hon rydym hefyd yn cynnwys hunaniaeth rhywedd, mynegiant rhywedd a phobl sy'n uniaethu fel anneuaidd.<br><br>Mae'r polisi arfaethedig yn sicrhau bod ein pobl yn gwybod na fyddwn yn goddef gwahaniaethu na diffyg parch tuag at unrhyw un a allai fod eisiau defnyddio eu dillad neu eu hymddangosiad i fynegi eu hunain.<br><br>Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n dewis defnyddio dillad a gwisg arall i fynegi eu hunaniaeth rhywedd a/neu fel rhan o'u trawsnewidiad. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Os yw unigolion yn dymuno gwisgo dillad brand Llais, gallant ddewis y maint a'r ffit o'u dewis. Rydym yn gweithio ar gynyddu'r opsiynau arddulliau, ffit a meintiau sydd ar gael er mwyn cael mwy o gynhwysiant.<br><br>Mae'r polisi arfaethedig yn cynnal iaith niwtral o ran rhywedd ac nid yw'n cynnwys enghreifftiau goddrychol na rhywedd. |
| Priodas/Partneriaeth Sifil | X | | | Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar gyfer y nodwedd hon yn yr asesiad hwn; fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ailystyried yn yr adolygiad polisi nesaf. |
| Beichiogrwydd/Mamolaeth | | X | | Drwy ddisodli HR079 gyda'r polisi arfaethedig, mae'n dileu'r baich ar bobl sy'n feichiog neu sydd wedi bod yn feichiog yn ddiweddar i geisio caniatâd i wisgo dillad neu wisg sy'n fwy cyfforddus iddyn nhw. |
| Hil | | X | | Nid yw'r cod gwisg presennol yn cyfeirio at steiliau gwallt amddiffynnol, dim ond y dylai gwallt hir gael ei glymu'n ôl ac ymddangos yn 'daclus'.<br><br>Rydym yn deall bod 'taclusder' mewn perthynas â gwallt yn oddrychol ac wedi'i ddefnyddio i ddadrymuso pobl rhag gwisgo eu gwallt naturiol neu wallt mewn steiliau gwallt amddiffynnol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | oherwydd ei fod wedi'i ystyried yn 'amhroffesiynol'.<br><br>Mae'r polisi arfaethedig yn sicrhau'n benodol y gall pobl a allai fod eisiau gwisgo eu gwallt naturiol neu ddefnyddio steiliau gwallt amddiffynnol wneud hynny heb ofni cael eu disgyblu.<br><br>Mae'r polisi'n cynnwys adran ar barchu gwahaniaethau diwylliannol a sicrhau y gall cyd-destun a manylion newid disgwyliadau wrth ystyried gwisg yn dibynnu ar y gweithgareddau y mae ein pobl yn eu gwneud. |
| Crefydd/cred | | X | | Nid yw'r cod gwisg presennol yn cyfeirio llawer at grefydd neu gred heblaw am ddatgan y byddai unrhyw 'wyriad' o'r cod oherwydd crefydd neu gred yn cael ei asesu ar 'lefel leol'.<br><br>Gwyddom fod menywod Mwslimaidd yn wynebu lefelau uwch o wahaniaethu oherwydd gwisg grefyddol neu ddiwylliannol yn y gweithle. Mae'r polisi arfaethedig yn dileu'r iaith hon ac unwaith eto mae'n glir wrth sicrhau bod ein pobl yn deall na fyddwn yn goddef unrhyw wahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn sy'n dewis gwisgo gwisg grefyddol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r polisi arfaethedig yn dileu'r gwaharddiad ar arddulliau gemwaith a thyllu clustiau sengl/tyllu wyneb wedi'i orchuddio a allai fod wedi bod yn gyfyngol ar unigolion sydd â thyllu clustiau lluosog oherwydd traddodiadau, defodau ac ati. |
| Rhyw | | X | | Mae Llais yn cydnabod nad yw pawb yn uniaethu o fewn y categorïau deuaidd. Fel sefydliad cynhwysol, mae ein hasesiad yn ystyried unrhyw un a allai uniaethu fel benyw, sy'n cyflwyno fel benyw fel rhan o'u hunaniaeth rhywedd, a phobl a neilltuwyd yn fenyw adeg eu geni.<br><br>Mae'r asesiad yn cynnwys y rhai sy'n uniaethu fel gwryw, sy'n cyflwyno fel gwryw fel rhan o'u hunaniaeth rhywedd a phobl a neilltuwyd iddynt fod yn wryw adeg eu geni.<br><br>Mae'n debygol y bydd y polisi arfaethedig fel disodliad uniongyrchol i HR079 o fudd i bobl sy'n profi symptomau'r perimenopos a'r menopos.<br><br>Drwy gael gwared ar gyfyngiadau'r polisi blaenorol, mae'r polisi newydd arfaethedig yn caniatáu i bobl ddewis dillad a gwisg sy'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfforddus iddyn nhw a gellir eu haddasu i gyd-fynd â'u gofynion e.e., haenau ar gyfer rheoleiddio tymheredd yn well, dillad llac ac ati.<br><br>Nid yw'r naill bolisi na'r llall yn gorchymyn dillad, gwisg nac ategolion penodol i 'ryw' a allai fod yn fwy tebygol o gael eu gwisgo gan un rhyw dros un arall. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | X | | | Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar gyfer y nodwedd hon yn yr asesiad hwn; fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ailystyried yn yr adolygiad polisi nesaf. |
| Ystyriaethau penodol i Gymru | | | | |
| Iechyd | X | | | Mae cyfle cyfyngedig i'r polisi hwn leihau anghydraddoldebau iechyd ehangach, fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai cod gwisg fwy hamddenol gynyddu cysur a lleihau straen mewn amrywiaeth o nodweddion o fewn yr asesiad hwn sy'n rhan o'n gweithlu. |
| Cymdeithasol-Economaidd | | X | | Mae HR079 yn cyfeirio at safon ddisgwyliedig o wisg a allai fod yn eithrio pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn methu â chaffael gwisg neu eitemau eraill o ddillad sy'n gallu 'gwrthsefyll golchi dillad trylwyr' oherwydd cost.<br><br>Mae'r polisi arfaethedig yn dileu'r gofyniad hwn, gan ganiatáu i bobl wisgo'r hyn sy'n eu gwneud |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn gyfforddus, a lleihau'r disgwyliad bod angen i bobl brynu eitemau penodol o ddillad ar gyfer y gweithle. |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br><br>Os yw eich cynnig/prosiect yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio/yn helpu i gyflawni'r 7 nod lles, cynhwyswch nhw yma. | | X | | Mae'r polisi hwn yn ystyried effeithiau hirdymor, yn enwedig wrth wneud ystyriaethau ar gyfer ein gweithlu sy'n heneiddio a'n gweithlu yn y dyfodol.<br><br>Gall y polisi hwn gyfrannu at Gymru 'fwy cyfartal' sy'n annog ein pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau drwy ganiatáu dull mwy hyblyg o wisgo yn y gweithle. |
| Iaith Gymraeg | | X | | Mae'r Cod Gwisg yn annog pobl yn benodol i wisgo eu bathodynnau Iaith Gwaith er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod bod croeso iddynt gyfathrebu â nhw yn y Gymraeg os ydynt am wneud hynny.<br><br>Mae hwn yn gam cadarnhaol, yn unol â Safonau’r Iaith Gymraeg, a gobeithiwn y gallai hyn hefyd sbarduno mwy o sgyrsiau mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg i’r rhai sy’n dysgu hefyd.<br><br>Ar hyn o bryd rydym yn edrych i gaffael un opsiwn llinyn Llais/Iaith Gwaith i'n pobl er mwyn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | osgoi gorfod gwisgo nifer o linynnau ar wahân i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg.<br><br>Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg y mae angen i ni eu lliniaru.<br><br>Bydd y polisi ar gael yn ddwyieithog. |
| Ystyriaethau ychwanegol | | | | |
| Gofalwyr/Profiad o Ofal neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu | | X | | Mae'r pecyn cymorth 'Cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr di-dâl' yn tynnu sylw at yr anghydbwysedd pŵer y gall rhai arddulliau 'corfforaethol' ei barhau wrth geisio ymgysylltu â gwahanol bobl.<br><br>Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn defnyddio cod gwisg fwy achlysurol mewn lleoliadau cynghori i leihau'r tebygolrwydd y bydd rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig yn atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth neu gyngor.<br><br>Rydym yn gwybod bod gofalwyr neu bobl â chyfrifoldebau gofalu yn fwy tebygol o weithio oriau llai neu ran-amser. Mae dros 25% o'n staff yn ofalwyr neu mae ganddyn nhw gyfrifoldebau gofalu. Gweler *Cymdeithasol-Economaidd* . |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynhwysiant/Allgau Digidol<br><br>Cofiwch gynnwys manylion unrhyw un o addewidion y Siarter Cynhwysiant Digidol y bydd eich cynnig/prosiect yn helpu i symud ymlaen. | X | | | Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar gyfer y nodwedd hon yn yr asesiad hwn; fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ailystyried yn yr adolygiad polisi nesaf. |
| Gwledigrwydd | X | | | Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar gyfer y nodwedd hon yn yr asesiad hwn, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ailystyried yn yr adolygiad polisi nesaf. |

**Asesiad Cyffredinol o'r effeithiau ar grwpiau penodol**

**Crynodeb:**
Ar hyn o bryd mae Llais yn gweithredu gan ddefnyddio HR079 'Cod Gwisg GIG Cymru Gyfan'. Nid yw hyn wedi cael ei ddiweddaru gan y GIG ers mis Medi 2011.

Byddai'r 'Cod Gwisg Llais' arfaethedig yn disodli 'Cod Gwisg GIG Cymru Gyfan' a bydd yn cael ei ddefnyddio i amddiffyn pobl i beidio â'u targedu'n annheg.

Mae'r polisi arfaethedig yn dangos ymrwymiad Llais i fod yn sefydliad gwrth-hiliol a chyfartal drwy ddatgan yn benodol y rheolau aneglur sy'n ffurfio ein gweithle, fel bod ein pobl yn gwybod beth fyddwn ni'n ei oddef a beth na fyddwn ni'n ei oddef.

Mae'r asesiad yn ystyried amrywiaeth o ffyrdd y gallai'r newidiadau i'r cod gwisg hwn effeithio ar wahanol grwpiau ac i lawer mae hyn yn golygu effaith gadarnhaol ar eu profiadau yn y gweithle**.**

**Diweddariad 13.03.2025 -** yn dilyn adborth gan Tîm Arwain, dylid nodi bod effeithiau cadarnhaol <https://businessmondays.co.uk/how-casual-wear-is-redefining-the-workplace/> ar lesiant pobl pan fyddant yn gallu gwisgo mewn ffyrdd sy'n gweithio iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys teimlo'n fwy cyfforddus, cadarnhaol a chynhyrchiol, a mwy o arloesedd**.**

**Ymgynghoriad:**
**Diweddarwyd 22.01.2026 -** yn dilyn ymgynghoriad mae'r polisi wedi'i ddiweddaru i roi eglurder ar yr hyn y gellir ei ystyried yn dramgwyddus o ran graffeg, delweddau a thatŵs. Mae adran ar wisg wleidyddol bellach i sicrhau bod ein safbwynt yn glir tra bod ein pobl yn ymgymryd â gweithgareddau Llais. Mae adran ychwanegol ar barchu gwahaniaethau diwylliannol wedi'i chynnwys i helpu ein pobl i ddeall bod naws a chyd-destun a allai newid disgwyliadau o ran sut maen nhw'n gwisgo ar gyfer gwahanol weithgareddau. Yn olaf, ychwanegwyd adran fer ar addasiadau rhesymol i egluro beth sydd angen i'n pobl ei wneud os nad ydyn nhw'n siŵr ynghylch unrhyw wisg a allai fod yn ofynnol fel rhan o addasiad.

**Diweddarwyd 03.02.2026 -** eglurder wedi'i ychwanegu at y cwmpas i gynnwys aelodau'r bwrdd ac i amlinellu ein bod yn deall y gall cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol gyfrannu at gynnal hylendid personol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach gan y tîm Gweithredol.

**Adnoddau/tystiolaeth ychwanegol:**
**Cyflogaeth: Cod Ymarfer | CCHD**

| |
|---|
| [Canllawiau cod gwisg](#)<br>[Cyflogwyr Cynhwysol](#) |
| **Pa gamau sydd wedi'u cymryd/a fydd yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw effaith(iau) negyddol posibl ar grwpiau penodol?**<br>Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grŵp penodol fel rhan o'r asesiad hwn. |
| **Iaith Gymraeg**<br>Gweler *yr Iaith Gymraeg* uchod.<br>**Canlyniad**<br>Mae'r asesiad hwn yn cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan ein Hysbysiad Cydymffurfio. |
| **Diogelu Data**<br>**Canlyniad**<br>Nid oes angen Asesiad Effaith Diogelu Data ar gyfer y polisi hwn**.** |

**Dogfen a ystyriwyd gan Carys Hedd-Paschalis (Rheolwr Pobl a Datblygu Sefydliadol) a Charysse Harper (Pennaeth Ecwiti, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant) ar 11 Chwefror 2025. Anfonwyd y ddogfen hon gyda'r polisi arfaethedig i Tim Arwain.**